

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun y 12fed o Fai 2025 am 8.40yh yng Nghanolfan Gymunedol Penybont.

Cynghorwyr yn bresennol: Alyson Harries (Cadeirydd), Ann Sillars, Andrew Jones, Ambrose Lewis, Linda Davies, Dyfed Davies, Eirian Howells, Arwyn Jones, Derrick Harries, John Phillips & Cynghorydd Sir Jean Lewis

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Dim – pawb yn bresennol
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Diolchodd Alyson Harries i bawb am fynychu.
3. **Datgan Buddiannau:**
Nododd y clerc datgan budd am y mynediad i Rhoscrugebolion.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 10fed o Fawrth 2025 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.

5. Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:

- Roedd y clerc wedi danfon y tystiolaeth ac y wybodaeth perthnasol ymlaen i gyfreithwyr edkrite am werthusiad, parthed y lôn trwy Lleine i Rhoscugeblion.
- Cytunwyd i fonitro'r sefyllfa parthed lorïau mawr yn teithio drwy Penybont o gyfeiriad Talog ermwyn gweld a fyddai arwyddion pellach o fudd.
- Roedd Dŵr Cymru wedi bod allan yn Velindre yn diffodd dau mesurydd dŵr a oedd yn troi ond ddim yn cyflenwi unrhywle.
- Roedd y clerc wedi cysylltu gyda chwmni Lorïau Gregorys' a oedd wedi ymateb yn dweud byddent yn cyfleu i'r gyrwyr am bwysigrwydd cyfyngiadau cyflymder ac am fod yn yliadwrus mewn pentrefi yn enwedig ger ysgolion.
- Roedd cais gan y Cynghorydd Sir Jean Lewis am fin baw cŵn wedi cael ei wrthod gan y Cyngor Sir gan nad oeddent y neu darparu bellach. Byddai angen ymchwilio ymhellach.

6. Gohebiaeth

a.—Roedd y clerc wedi derbyn hysbysiad côd treth. Nododd y clerc oherwydd rheolau newydd, byddai Yswiriant Gwladol Cyflogwr yn awr yn ddyledus ar gyflog y clerc.

b. Derbyniwyd anfoneb wrth Cyngor Sir Caerfyrddin am drydan a chynnal y goleuadau stryd. Cytunwyd i dalu'r £791.99.

c. Roedd Canolfan Alma wedi danfon anfoen am logi'r ganolfan am £120. Awdurdodwyd i'w dalu.

ch. Roedd manylion arolwg am Y Gwcw wedi cael ei ddanofn ymalen i bawb.

d. Roedd Ysgol Hafodwenog wedi ysgrifennu yn gofyn a byddai'r Cyngor Bro yn barod i gymryd y cyfrifoldeb am y diffibriliwr a oedd wedi ei osod ar Galnolfan Trelech. Yn dilyn trafodaeth, cytunwud i ofyn preswlydd lleol a byddai'n barod i fod y person cyfrifol.

dd. Roedd nifer o gyrsiau hyfforddiant ar gael yn y misoedd nesaf.

e. Roedd cais Ad-daliad TAW am £4,548.46 wedi ei gymeradwyo gan CaThEM ac roedd y taliad wedi ei dderbyn.

f. Roedd CRhaFf Ysgol Hafodwenog wedi ebostio yn gofyn a byddai'r Cyngor Bro yn barod i brynu uchelseinydd ar gyfer defnydd o fewn y gymuned gyfan ar gyfer digwyddiadau megis mabolgampau. Darganfyddwyd fod uchelseinydd gan Ganolfan Alma ac byddent yn siwr o fod yn barod i;w rannu o fewn y plwyf.

ff. Ceisiadau Cynllunio

a. PL/09216 – Cais ôl-weithredol am estyniad unig lawr @ Llainfawr, Penybont, SA33 6RJ.

7.Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £5,080.52.

8. Unrhyw Fater Arall

- Codwyd pryder am gyflwr dirywiol llwybr Clunfelyn. Wrth i amser fynd heibio heb unrhyw waith atgyweirio roedd y llwybr yn cwmpo'n bellach i mewn i'r afon. Byddai'r clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir.
- Roedd y ffens pren yn y gilfan ger Bronllan yn goleddu i mewn i'r heol. Byddai'r Cynghorydd Sir yn gwirio pwy oedd a chyfrifoldeb drosto.
- Adroddwyd twll yn yr heol ger Maesmebyd.
- Yn dilyn pryder diogelwch am y garreg wen fawr a oedd wedi cael ei osod yn mynedfa Fronlas byddai'r Cynghorydd Sir yn gwirio pwy oedd a chyfrifoldeb petai damwain yn digwydd yno.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 9.10yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 7fed o Orffennaf 2025.